# P-04-375 Stopio'r system optio allan ar gyfer rhoi organau

Geiriad y ddeiseb:
Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i stopio'r cynigion ar gyfer ei system optio allan ar gyfer rhoi organau. Rwyf o'r farn ei bod yn gwbl anfoesegol fod Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno system o optio allan ar gyfer rhoi organau. Ni ddylid cyflwyno'r system hon, yn enwedig os nad yw' n ystyried barn perthnasau. Er fy mod yn gweld yr angen am roi organau er mwyn osgoi marwolaethau diangen, rwyf yn dal o' r farn mai penderfyniad i' r unigolyn ddylai hyn fod ac nid rhywbeth a gaiff ei orfodi arnom gan y wladwriaeth. Dywedodd Dr Morgan, Archesgob Cymru: Mater o rodd, nid mater o ddyletswydd, yw rhoddi organ, does bosib ac rwy'n cytuno'n llwyr gyda'r datganiad. Mae'r system hon yn annheg ac yn treisio hawliau unigolion. Arwyddwch y ddeiseb os ydych o'r un farn ac am stopio'r ddeddfwriaeth hon rhag cael ei phasio.

Prif ddeisebydd: Bablin Molik

Ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf: 28 Chwefror 2012

Nifer y deisebwyr: 71